# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Adroddiad Monitro Blynyddol

## 1st Ebrill 2023 – 31st Mawrth 2024

monmouthshire
sir fynwy

# Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn yn rhoi sylw i gynnydd yn ystod y cyfnod yn diweddu ym mis Mawrth 2024. Mae'n rhoi adroddiad ar gynnydd ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 5 Mawrth 2020. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diweddaraf ar gael ar wefan y Cyngor yn: https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity/

## Cyswllt gyda strategaethau

Nid yw hwn yn gynllun sy'n sefyll ar ei ben ei hun ac mae ganddo gyswllt agos gyda nifer o strategaethau allweddol a pholisïau eraill y cyngor, partneriaethau a chenedlaethol. Mae gan rai ohonynt ffocws penodol ar gydraddoldeb ac mae eraill wedi cynnwys cydraddoldeb fel un o'r themâu allweddol. Mae'r dilynol yn enghreifftiau:

- Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Cymraeg 2050 (1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)
- Strategaeth Mwy na Geiriau
- Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy 2011-21
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 1 Ebrill 2016
- Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gyda'i ddyletswyddau cyffredinol a phenodol a amlygir isod, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn rhoi cyfle iddo ddangos ei ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a fu'n nodwedd o'i swyddogaethau cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

## Amcanion cydraddoldeb strategol Sir Fynwy 2020-2024

Yr amcanion strategol a gytunwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yw:

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant gan oresgyn rhwystrau i gyrhaeddiad a chyfle
- Goresgyn anghydraddoldeb mewn mynediad i ffyniant economaidd
- Creu cymunedau cydlynus
- Darparu gwasanaethau sy'n hygyrch i'n cyhoedd a chefnogi ein gweithlu
- Creu gweithlu amrywiol a chynhwysol
- Gostwng y bwlch tâl rhwng y rhywiau

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd ar yr amcanion hyn. Mae hefyd yn cynnwys dolenni i ddogfennau eraill tebyg i adroddiad tâl y rhywiau.

# Cyd-destun Deddfwriaethol

## Dyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010

Wrth weithredu ei swyddogaethau mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyladwy i

1. ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan y Ddeddf;
2. hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu hynny;
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu hynny.

Mae'r Ddeddf yn esbonio fod rhoi sylw dyladwy i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- Dileu neu leihau anfanteision a gaiff eu dioddef gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle maent yn wahanol i bobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

## Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Diben bras y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff cyhoeddus, tebyg i'r Cyngor hwn, wrth gyflawni eu dyletswydd gyffredinol, ac i gynorthwyo tryloywder. Caiff y dyletswyddau penodol eu gosod yng Nghymru gan Reoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) (Cymru).

Y dilynol yw'r dyletswyddau penodol:

- Gosod amcanion cydraddoldeb a chyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth ar gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
- Caffael
- Adroddiadau a chyhoeddi

## Amdan 1: Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant gan oresgyn rhwystrau i gyrhaeddiad a chyfle

### Nodweddion Gwarchodedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | |
| Anabledd | x | Rhyw | |
| Ailbennu rhywedd | | Cyfeiriadedd rhywiol | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Y Gymraeg | |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | | Tlodi | x |
| Hil | | | |

### Camau Gweithredu

| **Deilliant** | **Cam Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|
| Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gefnogi eu llesiant | Datblygu llwybr ymyriad cynnar ac atal integredig i gefnogi plant a theuluoedd ar y cyfle cynharaf a gostwng yr angen am ymyriad statudol i gadw pobl yn ddiogel yn neilltuol y rhai a gafodd brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod | Pennaeth Gwasanaethau Plant | Rydym wedi sefydlu panel aml-asiantaeth i dderbyn a thrafod plant lle cododd pryderon am eu llesiant neu fregusrwydd posibl yn y teulu. Mae aelodau'r panel yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor (tebyg i ofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau ieuenctid); gwasanaethau iechyd (yn cynnwys Gwasanaeth Meddwl Plant a'r Glasoed) ac ystod o gyrff trydydd sector a gwirfoddol (tebyg i Gweithredu dros Blant). Mae'r dull gweithredu panel wedi arwain at ymateb cydlynus at atgyfeirio sy'n helpu i sicrhau fod y teulu yn derbyn yr help cywir, y tro cyntaf gan y gwasanaeth sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu hynny.<br><br>Rydym wedi datblygu'r Tîm Adeiladu Teuluoedd Cryfach i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | weithio gyda theuluoedd yn wirfoddol o amgylch nodau a deilliannau'r teulu. Mae hyn wedi arwain at i blant a theuluoedd dderbyn cymorth ataliol mewn sefyllfaoedd lle dynodwyd pryderon dechreuol, gan helpu i osgoi'r angen am ymyriad statudol.<br><br>Rydym hefyd wedi dechrau ar gynllun peilot a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru – Rhaglen Trawsnewid Integredig Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cynllun peilot yn rhaglen ar draws y sir ar gyfer plant rhwng 0 a 7 oed yn cynnwys cymorth cyn-enedigol. Nod y cynllun peilot partneriaeth hwn yw llunio system blynyddoedd cynnar newydd sy'n dileu'r rhwystrau daearyddol ac oedran sydd yn eu lle ar hyn o bryd ar gyfer Dechrau'n Deg. Mae hefyd yn defnyddio dull gweithredu Marmot o gyffredinoliaeth gymesur ar gyfer teuluoedd gyda phlant ifanc gan sicrhau y caiff cymorth ei ddarparu gan y person cywir, ar yr adeg gywir drwy ddefnyddio dull "yr hyn sy'n bwysig". Mae mwy o wybodaeth am ddull Marmot ar gael yma: [Fair Society Healthy Lives (The Marmot Review) - IHE (instituteofhealthequity.org)]<br><br>Mae gan holl ysgolion Cyngor Sir Fynwy (heblaw am un) o leiaf un Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol wedi'i hyfforddi sy'n cefnogi disgyblion, mae gennym gyfanswm o tua 70 o'r Cynorthwywyr hyn sy'n cael effaith ddyddiol ar fywydau disgyblion.<br><br>Mae'r gwaith hwn yn parhau. |
| Plant yn cyflawni eu potensial llawn | Mapio'r ddarpariaeth gyfredol i gefnogi disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) a Sir Fynwy; dynodi unrhyw fylchau a gweithio gyda EAS a phartneriaid ehangach i ddatblygu strategaeth gydlynol i godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a chau'r bwlch rhwng disgyblion | Pennaeth Cyflawni a Chyrhaeddiad | Mae mwyafrif ein hysgolion wedi cymryd rhan gadarnhaol gyda strategaeth ranbarthol Mynd i'r Afael ag Agweddau o Dlodi dan arweiniad y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Fel canlyniad, mae llawer o ysgolion wedi datblygu ystod o strategethau effeithlon i gefnogi disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Cafodd y rhain eu rhannu gydag ysgolion eraill mew digwyddiadau rhanbarthol.<br><br>Ailddechreuodd Estyn ar eu rhaglen arolygiadau ym mis Ebrill |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu derbyn. | | 2022. Mae adroddiadau Estyn o'r dyddiad hwnnw yn dangos fod dysgwyr bregus, yn cynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Fodd bynnag, amlygwyd fod gwella presenoldeb disgyblion sy'n derbyn prydau am ddim yn argymhelliad yn y ddwy ysgol uwchradd a gafodd arolwg.<br><br>Mae presenoldeb disgyblion sy'n derbyn prydau am ddim ar draws y ddau sector yn parhau i wella, ac adeg y casgliad data diwethaf ddiwedd tymor y gwanwyn 2024, roedd presenoldeb disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn 89.4% ac yn 80% mewn ysgolion uwchradd. |
| Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu llesiant | Datblygu Partneriaeth 0-25 effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Lluniwyd fframwaith ddrafft gan ragweld strwythur Partneriaeth Strategol newydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Caiff hyn ei ddatblygu wrth ochr cynnig llesiant ar y cyd ar gyfer y sir, ac mae'r mapio ac adolygu ar gyfer hynny yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.<br><br>Cafodd gweithredu strwythur newydd i'r Bartneriaeth Plant a Phobl ifanc hefyd ei oedi ar hyn o bryd tra bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn cytuno ar ei ffrydiau gwaith blaenoriaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff y strwythurau angenrheidiol eu datblygu mewn modd priodol ac y byddant yn addas i'r diben, gan sicrhau synergedd gyda strwythurau a rhaglenni gwaith rhanbarthol, bydd yn lleihau dyblygu ac yn sicrau darpariaeth gydnaws, tra'n uchafu'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Bydd hefyd yn allweddol sicrhau bod datblygiad dull partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn rhoi ystyriaeth briodol i Gynllun Corfforaethol a Chymunedol Sir Fynwy a strategaeth Tlodi Plant 2024 Llywodraeth Cymru. |
| Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu llesiant (deilliant cau'r bwlch) | Datblygu'r Cynllun Ysgolion Bro | Arweinydd Partneriaethau Cymunedol a Llesiant | Mae Cydlynydd Ysgolion Bro yn y swydd. Mae'n datblygu gwahanol brosiectau i gefnogi ysgolion a chymunedau yn Sir Fynwy tebyg i'r Clwb Bwyd, Ffitrwydd Hwyl i'r Teulu, profiadau rhyng-genhadlaeth a cheisiadau am gyllid. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae ysgolion yn gweithio i gael mwy o ffocws ar y gymuned drwy gydweitho gyda mudiadau lleol, eglwysi, busnesau a grwpiau i ddarparu bwyd, dillad, offer ac offerynnau cerdd i'r gymuned. Maent hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i ennill Gwobr Calon yn y Gymuned.<br><br>Caiff ysgolion a chymunedau eu cefnogi gyda'r argyfwng costau byw a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cydlynydd yn cyfeirio ysgolion at fudiadau neu sesiynau a all helpu teuluoedd gyda heriau ariannol ac emosiynol. Mae pedwar digwyddiad 'Ysgolion a Chymunedau Gyda'i Gilydd' ar y gweill yn y pedair ysgol gyfun. Caiff prosiect gyda'r tîm Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy ei gynnig i ysgolion lle mae nifer isel sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim.<br><br>Penodwyd Arweinydd Trechu Tlodi ac Anghydraddoldeb newydd. Mae'r arweinydd yn cwrdd â phenaethiaid ysgolion clwstwr i drafod anghenion ysgolion a'u cymunedau yn Sir Fynwy. |
| Plant a phobl ifanc yn cael cyfle digonol i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgaredd corfforol | Cynnal asesiad blynyddol o ddigonolrwydd Chwarae | Arweinydd Datblygu Chwarae | Cynhaliwyd yr asesiad blynyddol diweddaraf o ddigonolrwydd Chwarae ym mis Mehefin 2022 ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.<br><br>Cyflwynwyd adolygiadau blynyddol a chynllun gweithredu ym mis Mehefin 23. Caiff adolygiad blynyddol a chynllun gweithredu wedi ei ddiweddaru ei gwblhau ym Mehefin 24. Bydd angen cwblhau'r asesiad llawn eto yn 2025 ac felly mae gwaith wedi dechrau ar gyfer ymgynghori a chystadleuaeth. |
| Plant a phobl ifanc yn cael cyfle digonol i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgaredd corfforol | Cyflwyno'r rhaglen arweinyddiaeth gwneuthurydd chwarae i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i gefnogi hyder, cymhelliant, llesiant a hyrwyddo dinasyddiaeth egnïol | Arweinydd Tîm Chwaraeon a Chymunedol | Rydym wedi parhau i ymestyn rhaglen gwneuthurwyr chwarae Sports Leader UK i bob disgybl blwyddyn 5 ar sail flynyddol am y cyfnod 6 mlynedd ddiwethaf. Mae hyn wedi arwain at i tua 6,000 o bobl ifanc gael cyfle i fynychu'r gweithdy a chefnogi darpariaeth iechyd a llesiant ar draws addysg gynradd cyn pontio i addysg uwchradd a'n llwybr academi arweinyddiaeth cysylltiedig i gyflogaeth ôl-16. Mae hyn yn rhan dreigl o'n gynllun cyflenwi i ddarparu'r cyfleoedd hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc yn cael cyfle digonol i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgaredd corfforol | Gostwng y diffyg cydraddoldeb mewn cyfraddau gweithgaredd corfforol rhwng gwrywod a benywod gyda'r rhaglenni Gall Genethod a Menywod yn Gryfach gyda'i Gilydd | Arweinydd Tîm Chwaraeon a Chymunedol d | Rydym wedi cyflwyno cyfres wedi ei thargedu o raglenni gyda ffocws ar gyfranogiad ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir. Gwelodd hyn gynnydd mewn cyfranogiad, diweddariad aelodaeth a llwybrau uniongyrchol i gefnogi gweithgaredd corfforol. |
| Cefnogi plant a phobl ifanc i wella eu llesiant<br>Plant gydag anableddau yn medru cael mynediad i weithgareddau chwaraeon | Gweithio mewn partneriaeth gyda swyddog rhanbarthol Chwaraeon Anabledd Cymru. Gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau iechyd lleol i gyfeirio atgyieiradau o'r llwybr iechyd i ddarpariaeth gymunedol yn Sir Fynwy. | Tîm Datblygu Chwaraeon/Chwarae MonLife | Mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi symud i fodel cyflenwi rhanbarthol a rydym yn gweithio'n agos gyda nhw i ddarparu astudiaethau achos a chyfeirio atgyfeiriadau gan bartneriaid iechyd. Caiff y rhaglen ei monitro a chynhelir cyfarfodydd dal lan misol gyda swyddogion perthnasol.<br>Mae ein hymrwymiad i ddarpariaeth hollol gynhwysol yn parhau a gwelsom gynnydd sylweddol mewn cynlluniau hollol gynhwysol, megis Cynlluniau Chwarae Gweithredu dros Blant, i gefnogi'r flaenoriaeth barhaus yma. Drwy ddarpariaeth gwyliau rydym yn gweithio'n agos gyda thîm anabledd plant Cyngor Sir Fynwy a sefydliadau tebyg i Ready Steady Go i ddarparu gweithgareddau gwyliau cynhwysol.. |
| Pobl ifanc sydd dan fygythiad digartrefedd yn cael gwell mynediad i lety a chymorth. | Sefydlu llwybr cadarnhaol i ddynodi digartrefedd posibl ar gam cynnar.<br>Adolygu gwasanaethau drwy'r Grant Cymorth Tai. | Rheolwr Tai a Chymunedau<br>Rheolwr Cyllido Hyblyg | Mae'r gwasanaethau Porth Cymorth Tai (HSG) yn cael eu hadolygu a chânt eu hailgomisiynu yn 2024-2024, gan roi ystyriaeth i anghenion pobl ifanc.<br><br>Cafodd prosiect Compass, sy'n darparu cymorth a llety ar gyfer pobl ifanc, ei ailstrwythuro a'i integreiddio i'r tîm HSG. Mae cydlynydd Compass hefyd yn gweithio i gefnogi pobl ifanc niwrowahanol.<br><br>Yn ychwanegol, bu cyfarfod o Banel Gwybodaeth Digartrefedd Ieuenctid Sir Fynwy i fapio taith digartrefedd pobl ifanc a dynodi gwelliannau.<br><br>Datblygwyd offeryn adnabod cynnar a'i weithredu mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ysgolion uwchradd i ddynodi pobl ifanc sydd mewn risg o ddod yn ddigartref.<br><br>Mae Sir Fynwy wedi mabwysiadu dull ailgartrefu cyflym at ddigartrefedd, gyda phwyslais cryf ar atal. Cafodd y wefan ei gwella i roi mwy o wybodaeth ac adnoddau ar gyfer pobl ifanc ac atal digartrefedd. |

# Amcan 2: Goresgyn anghydraddoldeb mewn mynediad i ffyniant economaidd

## Nodweddion Gwarchodedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | | Cyfeiriadedd rhywiol | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Y Gymraeg | |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | | | |

## Camau Gweithredu

| Deilliant | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Mwy o bobl â mynediad i fand eang cyflym | Cynyddu argaeledd a defnydd band eang ar draws y sir i drin allgau digidol | Pennaeth Datblygu Gwledig, Tai a Phartneriaethau | Mae'r gallu i gael mynediad i fand eang yn hanfodol ar gyfer llawer o ddinasyddion, yn arbennig yn nhermau gostwng costau teithio ac effaith carbon neu i gael mynediad i wasanaethau ar-lein i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.<br><br>Mae'r data diweddaraf o'r Adolygiad Marchnad Agored yn dangos fod y sefyllfa yn llawer gwell yn Sir Fynwy, gyda gwelliannau pellach ar y gweill dros y tair blynedd nesaf.<br><br>O 2010, roedd ffocws polisi Llywodraeth y DU ar ymestyn band eang cyflym iawn – a ddiffinnir fel arfer fel band eang gyda chyflymder lawrlwytho o 30 Megabit yr eiliad.<br><br>Yn 2019 nid oedd gan 2,494 neu 5.1% o'r holl safleoedd yn Sir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Fynwy (ein 'cyfradd amddifadedd digidol') fynediad i fand eang dros 30 Mbps. Erbyn 2021 roedd hyn wedi gwella i 1,238 neu 2.5% o aelwydydd. Mae hyn tua hanner cyfartaledd Cymru oedd yn 5.1% yn 2021. Dyma'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru gan mai dim ond weithiau y maent yn cynnal yr arolwg.<br><br>Mae nifer o ddarparwyr band eang, yn cynnwys BT, Sky a Virgin Media, yn cynnig tariffau hirdymor rhatach ar gyfer y rhai sy'n derbyn budd-daliadau tebyg i'r Credyd Cynhwysol a'r Credyd Pensiwn.<br><br>Mae hefyd weithredwyr newydd e.e. Voneus a Telet sy'n anelu mynd i'r afael â materion cysylltedd band eang gwledig yn y Sir. |
| Pobl yn cael y cyfle i gynyddu incwm eu haelwyd | Gweithio fel rhan o Brifddinas Ranbarth Caerdydd i ddenu swyddi sgil uchel, cyflog uchel | Prif Swyddog, Cymunedau a Lle | Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn parhau i weithio gyda chyflogwyr i ddeall eu hanghenion a rhoddodd gyngor i Lywodraeth Cymru ar flaenoriaethu'r dyfodol – gyda'r nod o ysgogi ymagweddau arloesol i uchafu effaith gweithgaredd a chyllid sgiliau'r dyfodol.<br><br>Rodd tâl wythnosol crynswth preswylwyr Sir Fynwy yn £695.30 yn 2023 o gymharu gyda £731.70 yn 2022, gostyngiad o 4.7%. Fodd bynnag, mae Sir Fynwy yn dal i fod â'r enillion cyfartalog uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na chyfartaledd Prydain Fawr. Cyfartaledd Cymru yn 2023 oedd £636.10 o gymharu â £604.30 yn 2022. Bu gostyngiad yn nhâl cyfartalog dynion i £699.209 yn 2023 o gymharu â £771.20 yn 2022. Bu cynnydd bach yng nghyfartaledd Cymru ar gyfer dynion i £671.30 yn 2023 o gymharu gyda £633.10 yn 2022. Mae tâl cyfartalog menywod yn 2023 yn £653.00 o gymharu â £621.00 yn 2022, cynnydd bach o 5.15%.<br><br>Cafodd Strategaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 7 Chwefror 2024. Un o'r amcanion yw sicrhau'r sgiliau a chymwysterau i bobl i fynd i gyflogaeth a mwynhau cynnydd cyflogaeth. Caiff cynnydd ei fonitro drwy gynllun gweithredu y strategaeth. |
| Pobl yn cael y cyfle i | Cyflwyno prosiectau Cronfa Ffyniant | Arweinydd | Parhau i ddarparu cymorth cyflogadwyedd a chyfleoedd cynyddu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynyddu incwm eu haelwyd | Gyffredin Llywodraeth y DU (CELT+ a Lluosi) a rhaglen Cymunedau am Waith + Llywodraeth Cymru i:<br><br>Cefnogi pobl economaidd anweithgar yn agos at y farchnad lafur drwy nifer o ymyriadau (mentora, uwchsgilio, cwnsela) (CELT+)<br><br>Cefnogi pobl ddiwaith sy'n barod i ddychwelyd i'r gwaith gyda chyfleoedd mentora a hyfforddiant i gynyddu eu sgiliau (Cymunedau am Waith +)<br><br>Cefnogi pobl nad oes ganddynt C mewn TGAU/wedi colli hyder mewn Rhifedd i gynyddu eu sgiliau drwy amrywiaeth o ymyriadau (TGAU, Gweithdai Trin Arian, cymorth un i un, cymorth ar gyfer rhieni gyda phlant CA1 i gefnogi gyda Rhifedd) (Lluosi) | Cyflogaeth a Sgiliau Oedolion | sgiliau drwy raglenni a gyllidir yn allanol sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2025.<br><br>Cafodd y prosiectau canlynol eu cyflwyno yn y flwyddyn ddiwethaf:<br><br>Cymunedau am Waith+<br>• Ymgysylltu - 201<br>• Nifer y bobl a gefnogwyd i waith – 115<br><br>CELT+<br>• Ymgysylltu – 165<br>• Deilliannau (amrywiol) – 131<br><br>Lluosi<br>• Ymgysylltu - 330<br>Cymryd rhan mewn cwrs - 208 |
| Gall aelwydydd uchafu eu hincwm a gostwng eu halldaliadau | Parhau i gyflwyno gweithgareddau sy'n anellu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi yn y Sir, yn unol ag amcanion y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol | Pennaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau | Datblygwyd ymgyrch costau byw newydd yn cynnig cymorth a gwybodaeth leol. Cafodd ymgychoedd cyfryngau cymdeithasol rheolaidd eu hanfon drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr awdurdodau. Gwelsom gynnydd yn nifer y "cliciau ymgysylltu" drwy ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ac ymwelwyr i'r tudalennau costau byw. Mae taflenni a phosteri lleol hefyd yn awr ar gael i'w dosbarthu ledled y Sir.<br><br>Caiff y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ac Anghydraddoldeb (2020) hefyd ei ailffocysu i fod yn gydnaws gyda'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Bydd hyn yn cynnwys y gwaith sydd wedi dechrau eisoes gyda ailffocysu y Rhydwaith Trechu Tlodi ac Anghydraddoldeb a Dangosfwrdd Trechu Tlodi ac Anghydraddoldeb. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gostwng nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth | Darparu cyfleoedd dysgu, hyfforddiant a chyflogadwyedd ar gyfer rhai 11 i 24 oed | Arweinydd Cyflogaeth Ieuenctid a Sgiliau | Mae ffigurau NEET yn amrywio bob blwyddyn ac maent rhwng 1%-2% ar draws pob grŵp blwyddyn (ac maent bod felly ers 2016). Fel enghraifft o hyn, yn ystod Covid, roedd y ffigurau yn agos at 2% oherwydd nad oedd disgyblion Blwyddyn 13 yn mynd i brifysgol. Ein nod yw gostwng niferoedd NEET flwyddyn ar flwyddyn ond maent yn amrywio rhwng 1-2% (er enghraifft, ym Mlwyddyn 1, 8 myfyriwr = 1%.<br><br>Yr hyn a wnaethom:<br><br>Mae gan bob ysgol Weithiwr Ymgysylltu Ysbrydoli penodol sydd â rôl o gefnogi rhai 14-16 oed i gynnal presenoldeb a helpu i adnabod a chefnogi cyfleoedd Ôl 16 (Coleg, Chweched Dosbarth, Cyfleoedd Hyfforddi, Prentisiaethau a Chyflogaeth).<br><br>Ar gyfer unigolion (a bu cynnydd sylweddol ers Covid) sy'n mynychu'r ysgol lai na 50% o'r amser), mae gennym weithiwr allgymorth Ysbrydoli yn mynd i gartrefi i gefnogi gydag opsiynau ôl-16.<br><br>Os ydynt wedi uniaethu fel NEET (neu'n dod yn NEET yn ystod Blwyddyn 12-13), mae ein gweithiwr Ôl-16 yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i gefnogi pobl ifanc yn ôl i ddarpariaeth. |
| Mwy o bobl gydag anableddau ac ymadawyr gofal mewn cyflogaeth | Rhoi mynediad i'r farchnad lafur ar gyfer pobl gydag anableddau ac ymadawyr gofal | Cydlynydd Prentisiaid gyda Gradd ac Internau | Rydym wedi cyflwyno cynllun gwarant cyfweliad ar gyfer ymadawyr gofal Sir Fynwy, cyhyd â'u bod yn cyflawni meini prawf sylfaenol y fanyleb person. Mae hyn yn parhau. Mae'r un cynllun yn ei le gennym ar gyfer pobl anabl. Rydym hefyd wedi cyflawni lefel 2 cynllun Cyflogydd Hyderus o Ran Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Goresgyn y rhwystrau i gael mynediad i drafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig | Gweithio gyda chwmnïau technoleg i ddatblygu datrysiadau digidol ar gyfer trafnidiaeth wledig yn Sir Fynwy yn defnyddio cyllid o Raglen GovTech Catalyst Swyddfa'r Cabinet | Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Yn dilyn buddsoddiad gan Swyddfa'r Cabinet, dyfarnwyd contract i gwmni technoleg sector preifat i gynnal ymchwil a datblygu i ddatblygu datrysiad digidol. Roedd hyn yn cynnwys cynllunydd trafnidiaeth integredig, system archebu ar gyfer cludiant cymunedol sy'n ymateb i'r galw a chynllun rhannu reidiau.<br><br>Tarfodd y pandemig ar y gwaith ac, mewn penderfyniad ar wahân |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | daeth Llywodraeth y DU â’r rhaglen i ben. Dynododd ymchwil a phrofion defnyddwyr na fyddai’r cynnyrch yn hyfyw yn fasnachol. Mae cynnyrch eraill bellach ar gael gan ddarparwyr eraill a byddent ar gael i’r awdurdod pe byddem yn dewis eu defnyddio. Dynododd yr ymchwil wersi defnyddiol y gellir eu gweithredu ar gyfer prosiectau’r dyfodol. |

## Amcan 3: Creu cymunedau cydlynus

### Nodweddion Gwarchodedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Y Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

### Camau gweithredu

| Deilliant | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Data gwell ar gael am fwlio seiliedig ar gasineb | Gwella cofnodi bwlio seiliedig ar gasineb a pheilota ymyriadau priodol | Grŵp Cynhwysiant Ysgolion Iach a Bwlio | Cyhoeddwyd taenlen i ysgolion i gofnodi materion Hawliau, Parch a Chydraddoldeb. Mae ysgolion a dreialodd y daenlen wedi'i chael yn fuddiol, gan ei bod yn caniatau hidlo drwy wahanol baramedrau a defnydd rhagweithiol ataliol o ddata. Nid dangos adroddiadau o ddim bwlio neu broblemau eraill yw nod y daenlen, ond sicrhau fod gan ysgolion system yn ei lle i gydnabod a mynd i'r afael â phryderon o'r fath.<br><br>Mae hyfforddiant gwrth-fwlio Hawliau, Parch a Chydraddoldeb yn rhan o'r cynnig Arweinydd Dysgwyr Bregus. Cynigiwyd pedair sesiwn ar-lein yn Hydref 2023 a thymor Gwanwyn 2024. Bydd yr hyfforddiant yn symud i gael ei recordio ac ar borth hyfforddiant cynhwysiant SharePoint ac felly bydd ar gael bob amser i bawb sydd ag e-bost staff Hwb |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith bwlio seiliedig ar gasineb ymysg plant ifanc yn yr ysgol | Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth yng nghlwstwr Cas-gwent i ddechrau. Yna drefnu ar gyfer y sesiynau ar draws y sir. | Megis uchod gyda Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig / Swyddog Cydlyniaeth Gymunedol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynyddu ymwybyddiaeth o ganlyniadau casineb a gwahaniaethu mewn cymdeithas | Cynnal digwyddiad blynyddol Diwrnod Cofio'r Holocost mewn Hybiau Cymunedol | Swyddogion Hybiau Cymunedol | Mae Diwrnod Cofio'r Holocost wedi parhau i gael ei gynnal yn flynyddol yn Sir Fynwy gyda chyflwyniadau a siaradwyr gwadd. Cafodd y digwyddiad diweddaraf, a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 27 Ionawr ar Ddiwrnod Coffa'r Holocost ei gynnal gan Gyfeillion Llyfrgell Trefynwy a'i gefnogi gan y Gwasanaeth Llyfrgell ac Ysgol Gyfun Trefynwy. |
| Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg plant o beryglon bwlio yn ei holl agweddau | Hyrwyddo'r Wythnos Wrthfwlio yn flynyddol | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br><br>Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc | Cefnogir hyn gan ysgolion a chaiff ei lywio gan eu cynghorau ysgol eu hunain. Caiff hefyd ei hyrwyddo gan yr arweinydd llesiant gyda dyddiadur bob tymor o ddigwyddiadauu a hyrwyddo yn y cylchlythyr. Gan weithio ar y cyd gyda chonsortia'r Gwasanaeth Cyflawni Addysgol (EAS) a hefyd fewnbwn gan y bwrdd Diogelu, drwy'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Diogelu mewn Addysg. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg hefyd yn cefnogi yn nhermau eu rôl.<br><br>Mae ymagwedd Arweinydd Dysgwyr Bregus Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod lleol yn ymwneud â'r agenda Hawliau, Parch a Chydraddoldeb ac yn hyrwyddo cofnodi pryderon am fwlio a digwyddiadau unigol yn erbyn nodweddion gwarchodedig a gwaith strategol ataliol ar sail blwyddyn-gron, nid dim ond yn yr wythnos gwrth-fwlio. Mae hefyd gysylltiadau gyda thimau eraill i ddadansoddi rhesymau dewis rhieni dros symud ysgolion drwy geisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, drwy'r tîm mynediad (derbyn). |
| Gostwng effeithiau unigrwydd ac ynysigrwydd | Cyflawni'r deilliannau dan Gynllun Sir Fynwy Gysylltiedig | Tîm Datblygu Cymunedol | Caiff rhaglen barhaus o waith ei chyflwyno drwy Gydlynwyr Datblygu Cymunedol. Cafodd y tîm ei ailaseinio yn ddiweddar i'r Tîm Datblygu Cymunedol, sy'n awr yn gweithredu'n ddaearyddol ar draws y Sir. Mae'r tîm yn gweithredu fel Gogledd, Canol a De, gan gynnig cymorth lleol gyda ffocws ar ymyriad cynnar ac atal. |

## Amcan 4: Darparu gwasanaethau sy'n hygyrch i'n cyhoedd a chefnogi ein gweithlu.

Nodweddion Gwarchodedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Y Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

Camau Gweithredu

| **Deilliant** | **Cam Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn ystyried ein cynulleidfa amrywiol pan fyddwn yn cyfathrebu fel cyngor | Cydymffurfio'n barhaus ag Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Yn ystod 23/24 fe wnaethom gyhoeddi cynnwys ein strategaeh cyfranogiad ar-lein sy'n trafod gwahanol elfennau ymgysylltu – mae mwy o wybodaeth ar gael yma (Strategaeth Cyfranogiad – Sir Fynwy). Caiff unrhyw gyfathrebu ei gyhoeddi mewn amrywiaeth o fformatau i sicrhau'r cyrraedd mwyaf. Lle mae ymgynghori ac ymgysylltu yn digwydd caiff cyfuniad o fformatau digidol, wyneb i wyneb ac ysgrifenedig eu hannog i gynyddu cyfranogiad. Datblygwyd 'ffurflen wybodaeth tîm cyfathrebu' ddigidol ar gyfer defnydd mewnol i roi negeseuon cyson ar draws gwasanaethau. Fel tîm rydym wrthi'n ymchwilio systemau digidol newydd i ymchwilio ymestyn ein cyrraedd a disgwyliwn gynnydd ar hyn drwy gydol 24/25. Mae cydymffurfio gyda a sefydlu egwyddorion cenedlaethol ymgysylltu cyhoeddus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn flaenllaw yn ein gwaith bob amser. |
| Gwefan hollol hygyrch yn rhoi gwybodaeth am wasanaethau'r cyngor | Adnewyddu gwefan y cyngor i sicrhau ei bod yn cyflawni'r canllawiau diweddaraf ar hygyrchedd cynnwys gwefannau | Swyddog Marchnata Digidol | Eleni cyflwynwyd Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau newydd ar draws y DU – Gwnaed cynnydd sylweddol i wella hygyrchedd gwefan y cyngor. Rydym yn awr yn olrhain cynnydd y prosiect hwn yn fisol yn defnyddio teclyn mynegai am ddim Silk Tide. Mae ein diweddaru parhaus ar y safle yn ein gweld yn gwella fis wrth fis. Fodd bynnag, mae rhai problemau yn dal i fod gyda'r safle, yn fwyaf arbennig broblemau gyda ffeiliau PDF ar y wefan, gellir gweld manylion yma: https://www.monmouthshire.gov.uk/accessibility/ |
| Mwy o wasanaethau ar gael yn ddigidol gan felly wella hygyrchedd | Parhau i wneud mwy o wasanaethau ar gael yn ddigidol drwy ap a sgyrsfot y Cyngor | Rheolwr Swyddfa Rhaglenni Digidol | Cafodd mwy o wasanaethau eu darparu drwy ap Fy Sir Fynwy ac mae'r defnydd wedi parhau'n uchel, er fod rhai defnyddwyr wedi mynegi rhwystredigaeth am ddyluniad ffurflenni. Rydym wedi cynnal adolygiad o wasanaeth cwsmeriaid ac wrthi'n gweithio drwy gamau i wella'r profiad.<br><br>Ddiwedd 2023 fe wnaethom symud i'r GDS ('Government Digital Service') i gydymffurfio gydag egwyddorion dylunio y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnal drws blaen clir, croesawgar a rhwydd ei ddefnyddio i Sir Fynwy.<br><br>Mae gan sgyrsfot y Cyngor tua 1600 o ddefnyddwyr unigryw bob mis ond mae terfyn ar yr ystod cwestiynau y gall Deallusrwydd Artiffisial eu hateb felly mae dibyniaeth yn parhau ar i asiantau 'gymryd trosodd'.<br><br>Mae'r awdurdod yn parhau i hyrwyddo a rhoi mynediad i wasanaethau drwy hybiau cymunedol a'i ganolfan cyswllt ffôn. |
| Mynediad wyneb i wyneb newydd a gwell i wasanaethau'r cyngor | Agor Hyb Cymunedol newydd yn y Fenni gyda mynediad sylweddol well | Pennaeth Gwasanaethau Masnachol a Landlord | Agorodd yr Hyb Cymunedol newydd yn dilyn adnewyddu Neuadd y Dref, y Fenni yn hydref 2022 gan gynnig gwell mynediad i gynnig gwasanaeth integredig yng nghanol y Fenni. Mae'r Hyb yn parhau ar agor. |
| Preswylwyr Sir Fynwy â | Parhau i ariannu Cyngor Ar Bopeth Sir | Pennaeth Polisi, | Mae'r awdurdod yn parhau i ddarparu cyllid grant i Cyngor Ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| mynediad i gyngor annibynnol | Fynwy<br><br>Gweithio'n agos gyda'r Prosiect Cyngor Anabledd i gael cyngor o'r prosiect a ariannir gan y Loteri Fawr | Prif Swyddog, Pobl a Phartneriaethau<br><br>Swyddog Cydaddoldeb a'r Gymraeg. | Mae'r awdurdod yn parhau i ddarparu cyllid grant i Cyngor Ar Bopeth Sir Fynwy. Dengys eu hadroddiad effaith diweddaraf i'r gwasanaeth gynyddu incymau gan £838,261 ym mhedwerydd chwarter 2023-24. Cynorthwyodd y prosiect 987 o bobl a datrys 3834 problem, 56% yn fenywod a 44% yn wrywod. Roedd anabledd ar 8% o'r rhai a gafodd gymorth. |
| Gwella gwasanaethau ar gyfer ymdrin ag iechyd meddwl yn Sir Fynwy | Parhau i weithio gyda Mind ar gyflwyno'r prosiect iechyd meddwl gwledig<br><br>Gwella'r gefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl y gweithlu | Rheolwr Adnoddau Dynol<br><br>Arweinydd Datblygu Sefydliadol | Llwyddodd Mind Sir Fynwy i ennill grant o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect blaengar Gweithwyr Gwledig. Mae'r prosiect yn cefnogi'r rhai yn y gymuned amaethyddol a diwydiannau cysylltiedig mewn ystod eang o faterion.<br><br>Mae ystod cynyddol o gymorth ar gael i staff yn cynnwys cwnsela, y grŵp 'Mynd Atynt' o staff sy'n cynnig cymorth cymheiriaid ac adnoddau hunan-gyfeiriedig tebyg i https://www.melo.cymru/ . Cânt ein cyfeirio drwy Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol. |
| Cefnogaeth ar gyfer menywod yn dioddef o iselder ôl-enedigaeth | Cyflwyno prosiect Dechrau'n Deg – 1000 diwrnod | Rheolwr Dechrau'n Deg | Mae'r rhaglen Integreiddio a Thrawsnewid Blynyddoedd Cynnar yn darparu mwy o gyllid ar gyfer gofal cyn-enedigol ac ôl-enedigol yn Sir Fynwy, gyda ffocws ar iechyd meddwl babanod a mamau. Mae'r rhaglen yn cefnogi grwpiau cymunedol ac yn cadw cyflenwad o laeth fformiwla babanod ar gyfer teuluoedd mewn argyfwng ariannol.<br><br>Caiff Rhaglen Greiddiol Blynyddoedd Cynnar newydd ei chyd-gyflwyno, gyda chymorth ar gael i famau drwy gyfeirio a gwneud cais eu hunain.<br><br>Mae rhaglen ôl-enedigol seiliedig ar dystiolaeth bellach ar gael i bob rhiant yn yr awdurdod, gyda chanlyniadau cadarnhaol hyd yma. Cafodd Cynghorydd Tadau hefyd ei recriwtio i roi cefnogaeth a chyngor. |

# Amcan 5: Creu gweithlu amrywiol a chynhwysol

## Nodweddion Gwarchodedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Y Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

## Camau Gweithredu

| Deilliant | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Y rhai sy'n gweithio mewn sectorau allweddol tebyg i ofal cartref yn llai tebygol o brofi tlodi mewn-gwaith | Parhau i dalu'r cyflog byw i holl gyflogeion y Cyngor | Prif Swyddog Adnoddau/ Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Diogelu | Cyflwynodd Cyngor Sir Fynwy y Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Ebrill 2014 ac mae'n parhau'r ymrwymiad parhaus i dalu o leiaf yn unol â'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'r polisi tâl yn rhoi'r ymrwymiad hwn (gweler adran 18 – taliadau dewisol) ac mae ar gael ar ein gwefan.<br><br>Cafodd yr holl staff ar delerau ac amodau'r NJC (Cyd-gyngor Cenedlaethol) ddyfarniadau cyflog mewn blynyddoedd diweddar wedi ei seilio ar gynnydd cyfandaliad ar draws pob graddfa gyflog. Mae'r dyfarniad tâl diweddaraf (2023-24) wedi gweld y cyflogeion ar y cyflog isaf yn cael cynnydd tâl o 22 y cant (£4,033) yn y ddwy flynedd ers 2021. |
| Mwy o bobl gydag | Cyflenwi'r cynllun gweithredu i sicrhau | Swyddog Cydraddoldeb | Cafwyd statws Cyflogwr Hyderus am Anabledd yn 2022 ac mae'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| anableddau yn gwneud cais i weithio i'r cyngor sir | statws cyflogwr Hyderus o Ran Anabledd | a'r Gymraeg | rhedeg hyd at 2025. Mae swyddogion wrthi'n datblygu cynllun gweithredu i gyflawni statws lefel 2 i gael ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2024 a gwnaud cais am statws newydd. |
| Gall pobl gael mynediad i wasanaethau yn llawn yn defnyddio'r Gymraeg | Targedu cyfleoedd swydd newydd yn rhagweithiol at siaradwyr Cymraeg | Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Caiff swyddi rheng-flaen allweddol a'r rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol eu hysbysebu mewn cyhoeddiadau Cymraeg a gwelsom gynnydd yn nifer y ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg lle caiff swyddi gwag eu targedu fel hyn. Roedd gennym tua 649 o swyddi gwag yn 23/24, gyda 24 ohonynt â'r Gymraeg yn hanfodol (3.70%) a 625 gyda'r Gymraeg yn ddymunol. Cawsom 16 ffurflen gais yn Gymraeg ar gyfer ysgolion Cymraeg drwy E-Teach. |
| Gweithlu mwy amrywiol | Cyflwyno mwy o gyfleoedd i raddedigion, internau a chadetiaid i gynyddu amrywiaeth y gweithlu | Cydlynydd Prentisiaid Graddedig ac Internau | Fe wnaethom gyflwyno'r Strategaeth Graddedigion Prentis ac Internau i gefnogi a chynyddu nifer y cyfleoedd ar drws y cyngor. Mae gwaith yn parhau ar hyn fel rhan ganolog o gynllunio gweithlu strategol. |

## Amcan 6: Gostwng y bwlch tâl rhwng y rhywiau yng Nghyngor Sir Fynwy

Pam fod hyn yn bwysig/Tystiolaeth

- Mae stereoteipio rhywedd yn dal yn amlwg mewn cyflogaeth ac mae'n arwain at fwlch tâl rhwng y rhywiau
- Mae diffyg cydraddoldeb rhwng lefelau cyflog benywod a gwrywod[i]
- Gall prinder trafnidiaeth gyhoeddus a chost uchel rhedeg car fod yn rhwystr i fenywod rhag uchafu eu potensial ennill arian

.

Nodweddion Gwarchodedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | | Crefydd neu gredo | |
| Anabledd | | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | | Cyfeiriadedd rhywiol | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Y Gymraeg | |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | | | |

Camau Gweithredu

| Deilliant | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Cyfrannu at chwalu cylch stereoteipio rhywedd sy'n bodoli mewn cymdeithas ac sy'n cael effaith | Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Dâl yn ôl Rhywedd | Rheolwr Adnoddau Dynol<br><br>Swyddog y Gymraeg a | Caiff yr adroddiad ar dâl rhywedd ei gyhoeddi'n flynyddol a rhoddir adroddiad arno i'r Cyngor, yn seiliedig ar y ciplun ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Roedd enillion cymedrig dynion yn £13.66 o gymharu gyda £12.93 i fenywod, bwlch o 73 ceiniog. Roedd hyn ychydig yn is nag yn 2022 (0.1%). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| negyddol ar gydraddoldeb tâl y rhywiau | | Chydraddoldeb<br><br>Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu/<br><br>Rheolwr Adnoddau Dynol | Mae cyfansoddiad a dosbarthiad gweithlu'r Cyngor yn effeithio'n fawr ar y bwlch cyflog. Mae mwyafrif gweithwyr y Cyngor yn y graddau isaf. Mae hyn yn neilltuol o amlwg mewn meysydd gofal cymdeithasol, glanhau ac arlwyo sydd â gweithlu lle mae'r mwyafrif helaeth yn fenywod ac sydd yn gyffredinol yn gweithio mwy o oriau rhan-amser, yn hytrach na swyddi lle mae'r mwyafrif helaeth yn ddynion tebyg i Briffydd, Gwastraff a Thiroedd er enghraifft, sy'n tueddu i weithio oriau rhan-amser. Felly mae'r Bwlch Cyflog Rhywedd yn gymaint o fwlch cymdeithasol ag yw o fwlch tâl yn unig.<br><br>Mae'n awr gydbwysedd rhywedd ymysg cynghorwyr etholedig sy'n gweithredu fel arwydd cadarnhaol i ddarpar aelodau nyewdd.<br><br>Bydd y Rheolwr Ailosod/Hyfforddiant newydd yn cynnwys ystyriaeth i gydraddoldeb rhywedd. |
| Deall gwahaniaethau tâl rhwng y rhywiau yn ein sefydliad | Casglu a dadansoddi data ar rywedd | Pennaeth Adnoddau Dynol / Pennaeth Datblygu Sefydliadol a Gweithlu | Mae cyhoeddi'r adroddiad blynyddol o dâl rhywedd yn rhoi gwell dealltwriaeth o wahaniaethau tâl. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn Adroddiad-Bwlch-Cyflog-Rhywedd-2024 – Sir Fynwy |
| Tâl cyfartal am waith o werth cyfartal | Adolygu'r Strategaeth Pobl gan sicrhau y caiff data bwlch cyflog rhwng y rhywiau ei ddefnyddio i lywio'r strategaeth | Rheolwr Datblygu Sefydliadol | Mae'r Strategaeth Pobl yn cael ei diwygio ar hyn o bryd yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol newydd gan y Cyngor ym Ebrill 2023. Bydd yr adroddiad tâl rhywedd yn rhan allweddol o'r sylfaen tystiolaeth. |
| Gostwng gwahaniaeth tâl rhwng y rhywiau yn y Sir | Ychwanegu mesurau at y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol | Rheolwr Adnoddau Dynol / Rheolwr Datblygu Sefydliadol | Cafodd Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol newydd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Ebrill 2023. Mae'n cynnwys mesurau ar y bwlch cyflog rhywedd ac ymrwymiad i ddatgrynhoi mwy o ddata i ddynodi gwahaniaethau ym mhrofiadau grwpiau o bobl gyda gwahanol nodweddion gwarchodedig a'r gwasanaethau a ddarperir iddynt. |

[i] Earnings by place of work – Male 563.6, Female 562. ONS annual survey of hours and earnings – Hydref 2019
https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/placeofworkbylocalauthorityashetable7